Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Y Felinheli
# Felinheli
# Gwynedd
# LL56 4TZ

# Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2015**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref Y Felinheli yng Ngwynedd. Daw'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion o'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae 155 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys tua 18 yn y dosbarth meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol chwe dosbarth amser llawn. Mae tua 7.8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (21%).

Mae'r ysgol wedi nodi tua 21% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 4% o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac nid oes yr un yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 75% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 1994 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Y Felinheli yn 2014-2015 yw £3,429. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Gynradd Y Felinheli yn safle 82 o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd;
- medrau rhifedd llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol;
- ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda;
- yr holl athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol; a
- bod yr addysgu yn y rhan fwyaf o wersi yn llwyddiannus gyda chyflwyniadau bywiog sy'n tanio brwdfrydedd y disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw perfformiad yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg; ac
- nid yw safonau darllen Saesneg llawer o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n briodol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- arweinwyr yn ysgogi cydweithio da ymysg holl staff yr ysgol;
- arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau cytûn ar gyfer asesu ar gyfer dysgu;
- ffocws cadarn ar sicrhau safonau addysgu da;
- defnydd da o arbenigedd gwahanol aelodau o staff;
- yr ysgol yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol; a
- bod yr ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw'r arweinyddiaeth yn gwneud defnydd priodol o'r ystod lawn o ddata perfformiad yn y broses o hunanarfarnu;
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod yr agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon trylwyr ac nid yw'n ddigon miniog i fod yn hollol effeithiol; ac
- nid oes cyswllt digon clir rhwng blaenoriaethau'r cynllun datblygu a chanfyddiadau'r broses hunanarfarnu.

## Argymhellion

A1 Codi deilliannau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 fel eu bod yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg

A2 Codi safonau darllen Saesneg

A3 Sicrhau bod darpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn nghyfnod allweddol 2 yn gyflawn ac yn cynnwys trin data a modelu

A4 Miniogi'r broses hunanarfarnu i roi ffocws penodol ar godi safonau disgyblion a chrynhoi'r materion allweddol ar gyfer gwella yn fwy effeithiol

A5 Sicrhau bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r broses hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol y disgyblion wrth iddyn nhw gychwyn yn yr ysgol yn amrywio. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn ysgol. Maent yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau gan wneud cynnydd priodol yn erbyn nodau'r gwersi. Gall llawer o ddisgyblion alw i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol ac adeiladu arno. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwiliol yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn gwybod beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw disgyblion o allu is na'r disgyblion mwy galluog yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd cadarn drwy'r ysgol. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hwylus ym mhob sefyllfa, ffurfiol ac anffurfiol, o oed cynnar iawn. Erbyn i'r disgyblion gyrraedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg hefyd yn datblygu'n dda a gall disgyblion drafod amrywiaeth o bynciau'n hyderus.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen Cymraeg i safon sy'n cyfateb i'w hoed a'u gallu ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae plant oed meithrin bron i gyd yn medru adnabod eu henwau eu hunain a phlant eraill yn gywir. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru trafod llyfrau a deunydd darllen arall yn briodol. Gallant ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn hwylus, er enghraifft gwybodaeth am sut mae'r galon yn gweithio yn eu gwaith gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen Saesneg yn dangos cynnydd digonol ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn ddarllenwyr effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn y ddwy iaith yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio map meddwl i gynllunio stori yn fedrus ac mae hyn yn arwain at waith creadigol estynedig yn seiliedig ar waith addysg grefyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n gywir gan ddefnyddio ystod o atalnodi ac yn paragraffu'n bwrpasol. Yn unol â'u hoed a'u gallu, maent yn ysgrifennu darnau estynedig o waith yn effeithiol mewn ystod o ffurfiau. Llwyddant i gymhwyso'r medrau hyn i gyflwyno gwaith o safon uchel mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth honno yn effeithiol i ffurf graff. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddo i ddatrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Gallant ddefnyddio unedau safonol i fesur hyd a lled gwrthrychau wrth greu dodrefn ar gyfer ystafell wely.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhifedd llawer o'r disgyblion yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer datrys problemau rhif ac yn gwneud defnydd priodol o ddata ar draws y cwricwlwm. Enghraifft o hyn yw'r ffordd maent yn cofnodi a chyflwyno gwybodaeth am faciwîs yn ystod yr Ail Ryfel Byd trwy ddefnyddio graff trawsnewid mesuriadau imperial a metrig.

Mae mwyafrif y disgyblion yn Gymry naturiol ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus ym mhob sefyllfa. Mae disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn caffael yr iaith yn fuan iawn ar ôl cyrraedd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn iaith, diwylliant a thraddodiadau Cymru.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn medrau llythrennedd yn anghyson ac wedi gostwng i'r 25% yn 2014 o ran cyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5). Mae perfformiad disgyblion o ran cyrraedd y deilliant uwch (deilliant 6) yn well ac yn gyson naill ai yn y 50% uwch neu 25% uchaf. Mae cynnydd amlwg ym mherfformiad disgyblion o ran cyrraedd y deilliant a ddisgwylir o ran datblygiad mathemategol. Tros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol wedi codi o'r 25% isaf i'r 50% uwch. Mae perfformiad o ran cyrraedd y deilliant uwch wedi gwella yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan godi o'r 25% isaf i'r 50% uwch. Yn gyffredinol, tros dair blynedd, nid yw perfformiad yr ysgol yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg o ran cyrraedd deilliant 5.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2014, roedd perfformiad disgyblion o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth yn y 50% is o ysgolion tebyg ac yn y 25% uchaf mewn mathemateg. Mae perfformiad mewn mathemateg yn dangos cynnydd cyson tros gyfnod o bedair blynedd gan godi o'r 25% isaf i'r 25% uchaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn y pynciau eraill wedi bod yn gyson yn chwarteli isaf. Ar y cyfan, mae perfformiad ym mhob pwnc o ran cyrraedd y lefel uwch (lefel 6) yn dangos gostyngiad sylweddol yn 2014 o gymharu ag ysgolion tebyg. Tros bedair blynedd, mae perfformiad ym mhob pwnc wedi bod yn anghyson iawn.

Nid oes patrwm clir o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion. Yn gyffredinol, dros gyfnod o amser, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n briodol ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu ac yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta a byw'n iach ac yn mwynhau gweithgareddau corfforol amrywiol. Maent i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddiried yn ei gilydd. Maent hefyd yn gwybod at bwy i droi am gymorth, os oes angen.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn. Dangosant barch a gofal arbennig tuag at eraill ac mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ofalgar wrth ymdrin â phlant iau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac yn dangos lefel dda o ddyfalbarhad yn y gwersi. Mae gallu'r rhan fwyaf i weithio'n annibynnol yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol ac yn un o gryfderau'r ysgol. Golyga hyn bod disgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r disgyblion i gyd yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i fynegi barn ac ysgwyddo cyfrifoldebau yn sgil gwaith grwpiau fel y Cyngor Ysgol, y Cyngor Eco, y Grŵp Ysgol Iach a'r Grŵp Mathtastig. Trwy weithgareddau cyson fel ailgylchu a threfnu gweithgaredd iaith trwy chwarae yn ystod egwyl, maent yn cyfrannu'n effeithiol at les yr ysgol gyfan. O ganlyniad, maent yn datblygu hyder a brwdfrydedd yn eu gwaith a'u cyfrifoldebau.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned, fel ymweliadau cyson â chartref lleol i'r henoed a chydweithio effeithiol gyda'r cyngor cymuned, y cynghorydd lleol a Gŵyl y Felin. O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn, mae medrau cymdeithasol, diwylliannol a moesol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn.

Mae canran presenoldeb y disgyblion yn dangos cynnydd dros gyfnod ac yn y 25% uchaf mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ers dwy flynedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau eang a phwrpasol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r cynllunio yn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar ba agweddau i'w hastudio ac, o ganlyniad, maent yn teimlo perchnogaeth dros eu gwaith thema. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol sy'n cyfoethogi eu datblygiad diwylliannol a hybu gweithgarwch corfforol yn effeithiol.

Mae cynlluniau effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cynllunio tymor hir a chanolig, a'r ddarpariaeth dda o adnoddau pwrpasol yn atgyfnerthu hyn.

Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau cefnogi effeithiol iawn i wella medrau rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion hynny. Er bod trefniadau ar waith ar gyfer cefnogi grwpiau penodol i wella medrau llythrennedd, nid yw hyn wedi cael effaith ddigonol ar fedrau darllen Saesneg disgyblion hyd yn hyn.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol yn gyson sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg a Chymreictod. Mae rhaglen waith yr ysgol yn effeithiol ac yn cynnwys ymweliadau, a gwaith yn seiliedig ar arlunwyr, crefftwyr, beirdd a phobl amlwg yn hanes a bywyd Cymru.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu'n drwyadl yn yr ysgol. Trwy sicrhau cyfleoedd cyson i'r disgyblion arwain gweithgaredd perthnasol trwy'r Cyngor Eco, y Clwb Dinasyddiaeth a'r Clwb Gwyrdd, mae'r ysgol wedi sicrhau bod dealltwriaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarn. Mae'r ysgol wedi datblygu'r ardal allanol yn

bwrpasol iawn ac wedi canolbwyntio ar faterion gwyrdd. Er enghraifft, mae’r ardd lysiau yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol ar gyfer diben yr ysgol. Mae’r staff yn hybu arferion cynaliadwy llwyddiannus yn gyson, ac mae hyn yn datblygu dealltwriaeth a phrofiadau’r disgyblion yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy’n ennyn eu diddordeb yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o wersi lle mae’r addysgu yn effeithiol, mae’r athrawon yn sicrhau cyflymdra addas ac yn rhoi cyflwyniadau bywiog sy’n tanio brwdfrydedd y disgyblion. Maent yn darparu gwaith syn cyfateb yn dda i lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn ffordd gynnil ac effeithiol. Er enghraifft, ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, mae’r athrawon yn rhoi cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddewis gwaith sy’n briodol iddynt. Mewn llawer o wersi, mae’r athrawon yn holi’r disgyblion yn gelfydd mewn ffordd sy’n denu ymatebion estynedig, ac yn eu harwain i ragfynegi a rhoi barn. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gyson weithredol yn ystod sesiynau dysgu. Mae’r athrawon i gyd yn cynnig modelau iaith lafar o safon uchel iawn, ac yn gosod disgwyliadau uchel ar y disgyblion. Mae eu rheolaeth dosbarth yn gadarn, a defnyddiant nifer o dechnegau effeithiol i sicrhau rhediad llyfn y gweithgareddau.

Yn yr ychydig iawn o wersi lle nad yw’r addysgu cystal, nid yw’r athrawon yn sicrhau ymrwymiad pob disgybl i’r gweithgarwch. Yn y sesiynau hyn, mae cyflymdra’r cyflwyno a’r gweithgareddau yn araf, ac nid yw disgwyliadau’n ddigon clir nac yn ddigon heriol i ateb gofynion pob disgybl yn briodol.

Nid yw’r cynllunio tymor byr yng nghyfnod allweddol 2 yn sicrhau bod y disgyblion yn ymestyn eu medrau TGCh yn ddigon da. Mae hyn yn arbennig o wir o ran datblygu medrau trin data a modelu.

Mae gan athrawon drefn glir a chytûn o olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys cynnydd medrau llythrennedd a rhifedd. Mae prosesau asesu ar ddiwedd y ddau gyfnod dysgu yn drefnus a chywir ar y cyfan.

Mae athroniaeth a thechnegau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio’n dda iawn yn yr ysgol. Bron ym mhob sesiwn ddysgu, mae athrawon yn cynnig adborth positif ac adeiladol i waith disgyblion, er enghraifft trwy roi ‘amser i wella’. Mae hyn, ynghyd â’r sylwadau marcio pwrpasol, yn helpu’r disgyblion i wybod pa mor dda maent yn cyflawni, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gyflawniadau eu plant mewn pynciau a meysydd dysgu ar draws y cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn dda. Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo’n effeithiol gan ystod o glybiau chwaraeon a chynllun yr ysgol i hybu iechyd. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn. Trwy waith y gwahanol grwpiau, mae’r ysgol yn sicrhau cyfleoedd da i ddisgyblion gyfrannu at les yr ysgol a’r pentref. Enghraifft o hyn yw’r modd mae’r

ysgol wedi dylanwadu ar hylendid cymunedol. Trwy gynnwys cyfleoedd i fyfyrio yn rheolaidd mewn gwasanaethau boreol ysgol gyfan a'r gwasanaethau dosbarth, mae'r ysgol yn annog datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn atgyfnerthu hyn yn y sesiynau amser cylch.

Darpara'r ysgol gyfleoedd defnyddiol i'r disgyblion werthfawrogi diwylliannau gwledydd eraill, fel Tsieina a'r India. Mae hyn yn meithrin ymagwedd aeddfed ymysg y disgyblion am eu cyfrifoldebau tuag at eraill.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth gwerthfawr ar faterion addysgol a lles, gan gynnwys cymorth proffesiynol pan fo angen, sy'n sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cefnogaeth effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r cydweithio pwrpasol gyda'r seicolegydd addysg ac athrawon arbenigol yr awdurdod lleol.

Defnyddia'r ysgol amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, gan gynnwys profion darllen a rhifedd, ynghyd â barn broffesiynol yr athrawon. Mae'r disgyblion yn elwa o gefnogaeth fel grwpiau ymyrraeth, cefnogaeth i unigolion, a chymorth o fewn y dosbarthiadau. Mae'r gefnogaeth rhifedd wedi bod yn llwyddiannus ond nid yw'r gefnogaeth o ran gwella medrau darllen Saesneg wedi llwyddo i'r un graddau. Mae gan yr ysgol drefn gynhwysfawr o fonitro cynnydd y disgyblion hyn, ac mae'n amrywio lefel y gefnogaeth yn briodol yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn gartrefol a chynhwysol iawn sy'n darparu cyfle cyfartal i bawb. Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar ac mae awyrgylch cynnes a naturiol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae pawb yn dangos awydd i helpu a chefnogi gwaith ei gilydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos parch a chonsyrn tuag at ei gilydd a thuag at eraill sy'n llai ffodus na nhw. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn dda.

Mae safle ac adeilad yr ysgol mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar gydag adnoddau pwrpasol ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a mannau cyhoeddus, mae'r staff yn gosod arddangosfeydd amrywiol sy'n dathlu gwaith disgyblion ac yn symbylu'r dysgu yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod yr ardal allanol a'i hadnoddau yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae cyfleoedd i ddisgyblion blannu llysiau ac arsylwi arnynt yn tyfu ar dir yr ysgol. Mae'r holl safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr ysgol strwythur arweinyddiaeth clir. Mae'r pennaeth yn ysgogi cydweithio effeithiol ymysg holl staff yr ysgol, sy'n creu 'cymuned ddysgu ysgol gyfan' yn llwyddiannus. Mae'r uwch dîm rheoli yn rhannu gweledigaeth sy'n hybu datblygiad cyflawn pob disgybl fel dysgwr annibynnol. Y nod yw creu unigolion cyfrifol fydd yn gallu bod yn aelodau gweithgar yn eu cymuned.

Mae'r uwch dîm rheoli yn sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau cytûn ar draws yr ysgol. Mae'r drefn o gyfarfodydd rheolaidd yr uwch dîm rheoli a staff cyfan yn sicrhau bod cyfathrebu mewnol yr ysgol yn effeithiol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n addas ar faterion proffesiynol, ac yn sicrhau cefnogaeth a hyfforddiant pwrpasol. Trwy'r drefn o reoli perfformiad a monitro cyson, maent yn gweithredu'n addas i sicrhau addysgu o safon uchel.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ar y cyfan, ac yn barod i gwestiynu'r uwch dîm reoli am gyflawniadau disgyblion. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o berfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac wedi llwyddo i weithredu asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Mae gofynion y Cyfnod Sylfaen hefyd yn cael eu gweithredu yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ar y cyfan, mae gan yr ysgol strwythur priodol ar gyfer arfarnu ei pherfformiad ei hun a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn ystyried ystod addas o dystiolaeth gan gynnwys data perfformiad, gwybodaeth o drefniadau monitro'r ysgol, arsylwadau gwersi ac ymatebion disgyblion a rhieni i holiaduron. Mae'r drefn o gael disgyblion i arsylwi gwersi a llunio adroddiadau yn arfer buddiol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnwys llawer o wybodaeth a manylion. Fodd bynnag, nid yw wedi llwyddo i grynhoi'r prif lwyddiannau a'r materion allweddol ar gyfer gwella yn ddigon effeithiol; er enghraifft, yr angen i wella safonau darllen Saesneg. Yn gyffredinol, yn arbennig yn yr adrannau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol.

Er bod sylw yn yr adroddiad i ddata perfformiad ac i gymariaethau gyda chanlyniadau'r awdurdod lleol, Cymru a'r teulu o ysgolion, nid oes sylw penodol i gymharu perfformiad yr ysgol yn erbyn ysgolion tebyg. O ganlyniad, nid yw'r materion i'w datblygu wedi eu seilio'n ddigon cadarn ar ganfyddiadau'r broses ddadansoddi data perfformiad.

Mae ffurf a strwythur y cynllun datblygu ysgol ar y cyfan yn briodol. Mae'n cynnwys adolygiad manwl o flaenoriaethau cynllun y flwyddyn flaenorol, ond nid yw'r adolygiad hwnnw yn rhoi digon o sylw i ddeilliannau disgyblion. Mae nifer y blaenoriaethau'n gymwys, a'r camau i'w gweithredu yn glir ac ymarferol. Mae camau gweithredu addas i wella agweddau o lythrennedd a rhifedd yn rhan o'r cynllun. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad digon cadarn rhwng blaenoriaethau'r cynllun â phrif ddeilliannau'r broses hunanarfarnu. Yn ogystal, nid yw'r ysgol wedi talu digon o sylw i ddata perfformiad wrth benderfynu ar y blaenoriaethau sydd eu hangen i godi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod effeithiol o bartneriaethau sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r gymdeithas cyfeillion yn trefnu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus i godi arian i'r ysgol yn gyson er mwyn sicrhau profiadau eang i'r disgyblion. Y llynedd, codwyd yn agos i £3,000 a chyfrannodd y cyfeillion at brynu adnoddau gwerthfawr megis gorchudd pwrpasol meddal i'r ardal chwarae y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen ac adnoddau TGCh. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn llwyddo i gyfathrebu'n effeithiol â rhieni.

Gan fod y pennaeth yn addysgu yn y dosbarth meithrin a bod y cylch meithrin lleol yn defnyddio'r un caban yn y prynhawn, mae cysylltiad agos iawn a chydweithio clos rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol. Mae hyn yn gymorth mawr i'r disgyblion newydd i ymgartrefu'n llwyddiannus. Yn yr un modd, mae trefniadau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd hefyd yn effeithiol. Mae trefniadau rheolaidd gydag ysgolion eraill i drafod a lefelu gwaith disgyblion yn sicrhau bod dealltwriaeth a chytundeb athrawon o ofynion asesu yn datblygu'n briodol.

Mae cysylltiadau â'r gymuned leol yn un o gryfderau'r ysgol ac mae'r ysgol yn weithgar iawn o fewn y gymuned. Enghraifft o hyn yw ymrwymiad yr ysgol i Ŵyl y Felin pan fydd yr ysgol yn cymryd rhan flaenllaw yn y dathliadau. Mae'r disgyblion yn elwa o'r cyfleoedd i berfformio o flaen cynulleidfa ehangach a'r ysgol yn elwa yn ariannol ac yn manteisio ar y defnydd o adnoddau ychwanegol. Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o'r cydweithio gyda'r cynghorydd lleol a'r cyngor cymuned ac yn cael cyfle i gynnig gwelliannau i amgylchfyd y pentref. Trwy hyn, maent wedi harddu'r ardal ger glan y môr a gwella'r parcio y tu allan i'r ysgol a'r pentref.

Mae cysylltiadau gydag ystod o glybiau chwaraeon yn hybu lles ac ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae lefel staffio'r ysgol yn briodol ac mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o'u harbenigedd a'u diddordebau er mwyn atgyfnerthu medrau staff. Enghraifft benodol o hyn yw'r cysondeb yn y defnydd o asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Mae'r athrawon yn defnyddio'r amser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, mae'r staff yn derbyn ystod o hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb yn briodol i flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion personol unigolion.

Mae’r ysgol yn rhan effeithiol o rwydweithiau proffesiynol ag ysgolion eraill ac mae hyn yn datblygu’r defnydd mae’r athrawon yn ei wneud o weithdrefn olrhain cynnydd electronig yn briodol. Mae’r rhwydwaith o fewn yr ysgol wedi ffocysu ar rifedd yn effeithiol ac wedi arwain at godi hyder staff a safonau disgyblion. Er y niferoedd bychain o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i gefnogi’r disgyblion hyn.

Mae amrediad addas o adnoddau yn yr ysgol sy'n cael eu defnyddio yn effeithiol i helpu'r holl ddisgyblion i gael mynediad llawn i’r cwricwlwm. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a lles y disgyblion ac yn cael eu monitro’n briodol.

O ystyried y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612127 - Ysgol y Felinheli**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 163 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 16 | 21 | 24 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 81.3 | 85.7 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 20 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 81.3 | 90.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 45.0 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 21 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 81.3 | 85.7 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 28.6 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 21 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 93.8 | 85.7 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612127 - Ysgol y Felinheli**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 163 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 20 | 21 | 15 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 81.0 | 93.3 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 21 | 15 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.0 | 85.7 | 86.7 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 35.0 | 28.6 | 53.3 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 21 | 15 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.0 | 81.0 | 93.3 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.0 | 28.6 | 46.7 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 21 | 15 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 81.0 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 28.6 | 40.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 21 | 15 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.0 | 90.5 | 93.3 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.0 | 28.6 | 40.0 | 23.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 70 | 70<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 70 | 68<br>97% | 2<br>3% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 70 | 69<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 70 | 70<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 70 | 70<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 70 | 69<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 70 | 70<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 70 | 69<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 70 | 66<br>94% | 4<br>6% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 70 | 67<br>96% | 3<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 70 | 67<br>96% | 3<br>4% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 70 | 65<br>93% | 5<br>7% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 37 | 27 | 8 | 0 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 73% | 22% | 0% | 5% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 37 | 29 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 78% | 19% | 3% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 36 | 26 | 8 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 22% | 6% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 37 | 21 | 13 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 35% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 37 | 19 | 14 | 1 | 1 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 51% | 38% | 3% | 3% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 37 | 19 | 12 | 1 | 1 | 4 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 51% | 32% | 3% | 3% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 37 | 24 | 9 | 1 | 1 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 24% | 3% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 36 | 18 | 12 | 0 | 1 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 33% | 0% | 3% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 36 | 21 | 7 | 2 | 1 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 19% | 6% | 3% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 37 | 22 | 14 | 0 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 38% | 0% | 3% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 37 | 25 | 8 | 1 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 22% | 3% | 3% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 34 | 14 | 5 | 1 | 2 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 41% | 15% | 3% | 6% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 37 | 14 | 18 | 3 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 38% | 49% | 8% | 5% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 37 | 17 | 15 | 2 | 3 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 46% | 41% | 5% | 8% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 37 | 14 | 8 | 5 | 4 | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 38% | 22% | 14% | 11% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 37 | 18 | 16 | 0 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 49% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 32 | 10 | 8 | 0 | 1 | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 31% | 25% | 0% | 3% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 37 | 19 | 13 | 3 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 51% | 35% | 8% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 37 | 16 | 13 | 3 | 2 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 43% | 35% | 8% | 5% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Eifion Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Non Huws | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.